***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

### *Termau eraill a ddefnyddir yn yr Atodlen hon*

3 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "newidiadau canlyniadol perthnasol" ("*relevant consequential changes*"), mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu, yw—

(a) newidiadau yn ffiniau cymunedau yn yr ardal;

(b) newidiadau i enw cymuned, neu'r cyngor ar gyfer cymuned, yr argymhellir newid i'w ffiniau;

(c) newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned yn yr ardal;

ystyr "trefniadau etholiadol" ("*electoral arrangements*") yw—

(a) mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu—

(i) nifer y cynghorwyr ar gyfer y prif gyngor yn yr ardal;

(ii) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir yr ardal iddynt at ddiben ethol cynghorwyr i'r prif gyngor;

(iii) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob ward etholiadol;

(iv) enw pob ward etholiadol;

(b) mewn perthynas â chymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu—

(i) nifer y cynghorwyr ar gyfer cyngor y gymuned;

(ii) ei rhaniad yn wardiau cymunedol at ddiben ethol cynghorwyr i gyngor y gymuned;

(iii) nifer, math a ffiniau unrhyw wardiau cymunedol;

(iv) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward gymunedol;

(v) enw unrhyw ward gymunedol.

(2) Yn is-baragraff (1), yn y diffiniad o "trefniadau etholiadol", mae'r cyfeiriadau at y math o ward yn gyfeiriadau at ba un a yw'r ward yn ward un aelod neu'n ward amlaelod; ac at y diben hwn—

ystyr "ward amlaelod" ("*multiple member ward*") yw ward y mae nifer penodedig (mwy nag un) o gynghorwyr i'w hethol ar gyfer y ward;

ystyr "ward un aelod" ("*single member ward*") yw ward y mae un cynghorydd yn unig i'w ethol ar ei chyfer.

(3) Mae adran 149 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ystyron termau a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.